CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS IAU
6 Medi 2018
AM 7.30 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, E Huws, R G Parry, S Williams, S Parry, G Parry, K Humphreys, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Rees (Cyngor Sir), Cyng C Hughes	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd 14.06.18 a 20.08.18
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae** - Mae yr offer ychwanegol wedi'i osod. Bydd y Clerc yn gofyn i ROSPA am pris archwiliad ychwanegol. Hefyd, mae ffram y swings newydd a brynwyd ym mis Ionawr 2018 wedi cracio. Yn eu ymateb, dywedodd y cwmni fod hyn yn arferol yn dilyn y tywydd poeth. Cynigodd Cyng K Humphreys trefnu cael pris am draenio y maes chwarae. Hefyd, mae'r cyngor yn disgwyl prisiau am arwyddion "dim cwn" ac am trin yr offer.
4.2	**Lôn y Fynwent** - Mae y contractwr torri gwair wedi twtio y lon a gosod weedkiller. Cytunwyd i dalu £55.00 am y gwaith
4.3	**Mynwent Salem** - Cytunwyd i dynnu y mater o'r agenda
4.4	**Mirror Engedi** - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Cynigodd y Cadeirydd croeso yn ôl i'r Clerc yn dilyn ei llawdriniaeth
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	13C132E Cais llawn i greu safle carafanau teithiol 31 llain yn Bryn Golau, Cartio Mon, Bryngwran. Nid yw'r safle o fewn ardal y Cyngor
6.2	16C209 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Cranham, Bryngwran - dim sylwadau
	Llofnod **Cadeirydd 11.10.18**

7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Anglesey Computer Solutions** - Darllenwyd e-bost gan ACS yn amlinellu pam fod angen gwaith ar y wefan iddi gydymffurfio â deddfwriaeth GDPR yn llawn. Cytunwyd fod y dasg yn fwy nag y tybiai'r Cyngor yn ein trafodaethau a chytunwyd i awdurdodi'r Clerc i roddi caniatâd i ACS symud ymlaen i wneud y gwaith. Mae yna nifer o bethau eraill y mae angen i'r Cyngor ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a bydd y Clerc yn gwneud hynny cyn hir. Cytunwyd i dale £55.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Swing y maes chwarae - gweler 4.1
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Zurich Municipal £473.93
9.2	Playsafety £88.20
9.3	J Foulkes £75.00
9.4	Cyflog y Clerc Gorffennaf 2018 £200.00 (oherwydd nid oedd y standing order wed'i' dalu)
9.5	Rhent y maes chwarae £80.24
9.6	E Huws costau Diwrnod Hwyl (rhodd gan y Cyngor Cymuned)
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.1	Paentio y cysgodfannau bws
10.2	Sul y Cofio
10.3	Defibrilator
	Llofnod…….Cadeirydd 11.10.18